# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-16-08 Papur 2 : 20 Tachwedd 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor.  Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Pan yw'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 16-08 Papur 2A i'r papur hwn.

### (i) P-03-061 M TAN Glo

### Geiriad y ddeiseb

'Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r system ddeisebau dan bwerau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.'

Mae'r ddeiseb yn galw am M TAN Glo cryfach a fydd yn darparu:

Rhagdybiaeth lem yn erbyn gwaith glo brig yn ein cymunedau gydag unrhyw gais newydd neu estyniadau o hyn ymlaen.

Pellter gwahanu o 500 metr, o leiaf, a hwnnw'n bellter 'absoliwt' pe ceid unrhyw waith glo brig i'r dyfodol.  Yr unig newid y dylid gallu ei wneud i'r 500m fyddai ei gynyddu, heb unrhyw gafeat i'w leihau.

Dylai'r 500m gynnwys pob cartref, hyd yn oed 1-9 annedd (nad ydynt, ar hyn o bryd, wedi eu gwarchod o gwbl gan y pellter cyfredol o 350m).  Ar hyn o bryd, nid yw'r pentrefannau gwledig hyn na'r dinasyddion sy'n byw mewn anheddau anghysbell yn cael statws a gwarchodaeth gyfartal.

Roedd yr ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd ar ôl rhyddhau'r M TAN Glo drafft yn dangos bod y cyhoedd o blaid 500m, a byddai hynny, mewn gwirionedd, â rhagdybiaeth yn erbyn pe câi ei weithredu.

Gan fod pobl Cymru yn byw ar y glo ac yn agos ato, dylid peidio ag annog mwy o waith glo brig gan fod astudiaethau amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol yn datgan ei fod yn anaddas fel datblygiad cynaliadwy, derbyniol neu hyd yn oed iach ar gyfer y dyfodol.

### Cefndir

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 20 Medi 2007. Ystyriwyd y ddeiseb eto ar 24 Ebrill 2008 a 16 Hydref 2008.  Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn y cyfarfod hwn.

Atebodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai'r llythyr ar 06 Tachwedd 2008. Mae copi o'r ateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-061.htm

### (ii) P-03-063 Gwahardd bagiau plastig

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn datgan ein bod yn cefnogi gwahardd yng Nghymru fagiau plastig na fwriedir iddynt gael eu hailddefnyddio..

Felly rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd bagiau plastig na fwriedir iddynt gael eu hailddefnyddio."

### Cefndir

Cyfeiriwyd y ddeiseb hon at y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w hystyried, a lansiwyd ymchwiliad i'r ddeiseb gan y pwyllgor hwnnw.

Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi cwblhau ei ymchwiliad ac wedi cyhoeddi ei adroddiad.

Linc at yr adroddiad: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/plastic_bag_report_final.pdf

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-063.htm

### (iii) P-03-067 tir y 'Miners' Welfare'

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon ac sy'n byw ym mhentref Nelson, yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddatblygiad ar y safle uchod gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru'r safle 7.5 erw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd wedi'i brynu ar ran yr Awdurdod oddi wrth yr ymddiriedolwyr, heb yn wybod i'r cyn-lowyr lleol, am bris chwerthinllyd o isel. Nid cyn-lowyr oedd yr ymddiriedolwyr hyn ond cyn-gynghorwyr dosbarth lleol.Mae'r tir hwn bellach yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnwn iddi ddychwelyd tir y 'Welfare', sydd bellach yn ardal wledig agored sy'n llawn harddwch naturiol, coed hynafol, coetir, gwrychoedd a bywyd gwyllt amrywiol, i eiddo trigolion y pentref i'w ddefnyddio gennym ni a chenedlaethau i ddod. Dyna oedd bwriad y glowyr lleol pan fu iddynt brynu'r tir hwn a thalu amdano. Rydym eisoes wedi cyflwyno deiseb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n galw arno i hepgor y tir o'i Gynllun Datblygu Lleol.'

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Mrs P. Lapsa.

Casglwyd 1,692 o lofnodion ar y ddeiseb.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 20 Medi 2007. Ers hynny mae wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeiseb ar 21 Chwefror 2008, 06 Mawrth 2008, 10 Ebrill 2008 a 02 Hydref 2008.

Yn ei gyfarfod ar 02 Hydref 2008, ysgrifennodd y pwyllgor at y Dirprwy Brif Weinidog. Mae copi o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-67.htm

### (iv) P-03-082 Ysgol Hen Felin

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni'r rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu mwy o gyllid ar gyfer grwpiau fel VIVA i'n galluogi i wneud mwy o weithgareddau min nos.'

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan ddisgyblion Ysgol Hen Felin. Casglwyd 21 o lofnodion ar y ddeiseb.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 21 Chwefror 2008 a chlywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 08 Mai 2008. Ystyriodd y pwyllgor sefyllfa Llywodraeth y Cynulliad ar 25 Mehefin 2008 a 02 Hydref 2008.

Gwnaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ddatganiad ar 3 Tachwedd 2008 ar '"Agenda Bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl ac Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru'".

Mae copi o'r datganiad hwn yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-082.htm

### (v) P-03-090 Ysgol Portfield

### Geiriad y ddeiseb

'Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y dylai Sir Penfro fod â bysiau mwy hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.'

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan ddisgyblion Ysgol Portfield.  Casglwyd 21 o lofnodion ar y ddeiseb.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 06 Mawrth 2008. Bu rhai o aelodau'r pwyllgor yn ymweld ag Ysgol Portfield, i gasglu tystiolaeth gan ddisgyblion ar 04 Gorffennaf 2008 a buont yn trafod adroddiad byr ar 02 Hydref 2008.

Cafodd y pwyllgor lythyrau oddi wrth Is-ysgrifennydd Gwladol Senedd y DU dros Drafnidiaeth a Dirprwy Brif Weinidog Cymru mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Mae copïau o'r llythyrau hyn yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-90.htm

### (vi) P-03-124 Cysgliad

#### Geiriad y ddeiseb

' Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod fersiwn Windows o'r geiriadur/thesawrws Cysgliad ar gael i'w lwytho am ddim.

#### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Alun Evans. Casglwyd 11 o lofnodion ar y ddeiseb.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 11 Mehefin 2008 ac ystyriodd lythyr gan Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor ar 02 Hydref 2008. Cytunodd y pwyllgor yn y cyfarfod hwn i ysgrifennu at y Gweinidog Treftadaeth. Mae copi o'i ymateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-124.htm

### (vii) P-03-134 System anrhydeddau i Gymru

#### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno system anrhydeddau i Gymru ac y dylai system o'r fath anrhydeddu'r awdur, Jan Morris'

#### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Richard Owen a chasglwyd 38 o lofnodion.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2008 ac ystyriodd ymateb gan y Prif Weinidog ar 02 Hydref 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Swyddfa Gabinet i gael rhagor o wybodaeth.

Mae ymateb y Swyddfa Gabinet yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-134.htm

### (viii) P-03-137 Hypothyroidedd

#### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.'

#### Cefndir

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 16 Hydref 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae copi o ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-137.htm

### (ix) P-03-140 Cyfnod Sylfaen

#### Geiriad y ddeiseb

'Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu arian digonol ar gyfer ehangu'r Rhaglen Cyfnod Sylfaen yn gyflawn. Credwn bod yr arian a ddyrannwyd ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn annigonol. Gofynnwn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ymchwilio ymhellach i'r achos dros dderbyn rhagor o arian.'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel eDdeiseb gan Mrs Claire Higgins a chasglwyd 126 o lofnodion.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 23 Gorffennaf 2008. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnal ymchwiliad i agweddau ariannol y Cyfnod Sylfaen ac mae wedi cyflwyno adroddiad ar y mater i'r Cynulliad.

Bellach mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar ei waith craffu ar y gyllideb ddrafft, ac wedi nodi ei fod yn fodlon gyda'r arian ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer ehangu'r Cyfnod Sylfaen.

Linc at adroddiad y Pwyllgor Cyllid : "G"

"EN-LD7253 - Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2009-2010 a'r Dyraniadau Adnoddau ac Arian Parod Dangosol ar gyfer 2010-2011

"

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-140.htm

### (x) P-03-141/9 O blaid maes awyr Llanbedr ac yn ei erbyn - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cynulliad Cymru

### P-03-141 O blaid maes awyr Llanbedr - geiriad y ddeiseb

'Maes awyr Llanbedr - Oes, Oes, Oes!

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod o blaid datblygu maes awyr Llanbedr er mwyn dod â gwaith i'r ardal, hybu twristiaeth a datblygu'r economi leol.'

Cyflwynwyd y ddeiseb gan Gwynli Jones.

Casglwyd 1,240 llofnod ar y ddeiseb.

Linc at P-03-141 o blaid maes awyr Llanbedr: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-141.htm

### P-03-149 Yn erbyn maes awyr Llanbedr - geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i nodi gyda phryder gynlluniau i greu canolfan hedfan masnachol ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sy'n mynd yn groes i'r dibenion statudol y cafodd Parciau Cenedlaethol eu creu ar eu cyfer. Credwn bod angen cynnal archwiliad cyhoeddus llawn o bob agwedd ar y cynnig hwn.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel eDdeiseb gan Gymdeithas Eryri.

Casglwyd 156 llofnod ar y ddeiseb

Linc at P-03-149 yn erbyn maes awyr Llanbedr : h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-149.htm

### Cefndir

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:

2

3 Gorffennaf 2008 - Ystyriaeth am y tro cyntaf n

0

2 Hydref 2008 - Y wybodaeth ddiweddaraf - ystyried ymateb gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth d

1

6 Hydref 2008 - Y wybodaeth ddiweddaraf - cyflwynodd y deisebwyr dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor e

Yn dilyn y cyfarfod ar 16 Hydref cytunodd y pwyllgor i gasglu gwybodaeth ychwanegol amrywiol. Mae bellach wedi cael ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ymatebion hyn yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

### (xi) P-03-167 Dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint (AMD)

### Geiriad y ddeiseb

'Mae'r South Wales Echo wedi dechrau ymgyrch i sicrhau y rhoddir triniaeth gyfartal ym Mro Morgannwg ar gyfer y llygad gyntaf, fel yr hyn sydd ar gael yn Abertawe yn awr ar gyfer y clefyd llygad dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint.Maent wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau sy'n cynnwys Eileen Younghusband, sy'n dioddef o'r clefyd hwn ac sy'n ymgyrchu iddo fod ar gael i bawb lle bynnag y

bônt yn byw yng Nghymru.  Rhowch eich enw isod os ydych yn ei chefnogi.  Diolch yn fawr..'

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Eileen Younghusband a chasglwyd 141 o lofnodion.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 16 Hydref 2008. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i gais am wybodaeth gan y pwyllgor ac mae hi hefyd wedi cyhoeddi datganiad. Mae'r ddwy ddogfen yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-167.htm

### (xii) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i edrych ar fwriad y bwrdd iechyd lleol i gau Ysbyty Abertyleri a'r Cylch a rhoi sylw i'r mater.'

### Cefndir

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 16 Hydref 2008. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae copi o ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-166.htm

### (xiii) P-03-171 Diogelwch Tân - llythyr gan y Gweinidog

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn nodi'r cynlluniau newydd parthed rheoli perygl ar gyfer y gwasanaethau tân mewn sawl rhan o Gymru. Credwn y gall y cynlluniau hyn arwain at gynnydd yn y perygl mewn sawl cymuned. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i weithredu er mwyn sicrhau nad yw safonau diogelwch cyfredol yn cael eu gostwng'

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Rhys Williams a chasglwyd 13 o lofnodion.

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 16 Hyderf 2008. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi ymateb i gais y pwyllgor am wybodaeth ac mae copi o'i ateb yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 16-08 Papur 2A.

Linc at y ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-171.htm

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**